WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 368A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth; oherwydd ei hanes da o gyflawni ei amcanion ariannol, y mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16 | 5 |
| Gwaith archwilio perfformiad ac arolygu 2014-15 | 5 |
| Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau | 7 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 9 |
| Adroddiad manwl | 10 |
| Perfformiad | 11 |
| Defnydd o Adnoddau | 20 |
| Llywodraethu | 23 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 26 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad o Berfformiad 2013-14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 29 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 31 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 | 34 |
| Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 39 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwella a threfniadau adrodd cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol i sicrhau gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff yn Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol.

2 Yn ogystal â hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol manwl o bob awdurdod ar sail gylchol (bob pedair blynedd ar hyn o bryd). Yn y blynyddoedd rhwng yr asesiadau, yn ychwanegol at archwiliadau o gynlluniau ac adroddiadau gwella, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn cadw golwg ar ddatblygiadau. Bydd y Swyddfa hefyd yn canolbwyntio, wrth wneud gwaith asesu pellach, ar sawl thema allweddol a ddatblygir yn seiliedig ar drafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blaenorol ym mis Mai 2014. Mae'r AGB hefyd yn cynnwys crynodeb o'r prif ganfyddiadau mewn adroddiadau a llythyrau gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau ynddo'n seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan gyrff adolygu allanol perthnasol o fewn y Cyngor ac, oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg cyflawni'r gwaith hwnnw.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys 'Casgliad Cyffredinol' yn ei adroddiad (gweler tud 6) lle nodir a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant ynghylch iechyd y sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, hyd y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn info@archwilio.cymru neu anfon llythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Dyletswyddau a gofynion a gynhwysir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth; oherwydd ei hanes da o gyflawni ei amcanion ariannol, y mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi seilio'r casgliad hwn ar y gwaith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith arolygu'r rheoleiddwyr eraill. Ceir crynodeb isod o'r prosiectau a gynhaliwyd, ynghyd â'r canfyddiadau, yr argymhellion ac/neu'r cynigion ar gyfer gwella yn eu sgil.

## Gwaith archwilio perfformiad ac arolygu 2014-15

8 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau'r Cyngor ei hun i adolygu a gwerthuso. Ar gyfer 2014-15, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwella o dan dair thema: Perfformiad, y Defnydd o Adnoddau a Llywodraethu. Dyma brosiectau unigol a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill yn ystod y flwyddyn:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o gynllunio ariannol** | Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a'r modd y mae'n cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. | Gorffennaf - Tachwedd 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor** | Asesiad o ymlyniad y Cyngor at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi ei Gynllun Gwella. | Ebrill-Mehefin 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Adroddiad y Cyngor ar Berfformiad** | Asesiad o ymlyniad y Cyngor at ofynion Llywodraeth Cymru ynghylch cyhoeddi ei Adroddiad ar Berfformiad. | Hydref-Tachwedd 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau moderneiddio corfforaethol** | Asesiad o gynnydd y trefniadau ar gyfer moderneiddio corfforaethol. | Hydref - Rhagfyr 2014 |

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau cyflawni'r gwaith |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd** | Asesiad o gynnydd y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd mewn cynghorau. | Hydref 2014 - Ionawr 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer dosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor o ran dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. | Ionawr-Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn rhan o Asesiad Corfforaethol 2013** | Adolygiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd fel rhan o Asesiad Corfforaethol 2013. | Hydref - Rhagfyr 2014 |
| **AGGCC - Arolygiad o'r gwasanaethau rheoledig yng Nghonwy** | Arolygiadau o wasanaethau rheoledig yng Nghonwy, gan gynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | Ebrill - Gorffennaf 2014 |
| **AGGCC - Arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal, ar gyfer plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal sy'n arddangos ymddygiad bregus neu beryglus.** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant dan ofal dros 11 oed, a'r rhai sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn fregus ac/neu'n ymddwyn mewn ffordd beryglus. | Ebrill-Mai 2014 |
| **AGGCC - Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14** | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. | Ebrill-Hydref 2014 |
| **Comisiynydd y Gymraeg - Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun o ran darparu gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn Gymraeg. | Gorffennaf-Awst 2014 |

## Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau

9 Yn y tabl isod, ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae dangosyddion cenedlaethol yn parhau i roi darlun boddhaol o berfformiad (paragraffau 14 i 16).<br><br>**AGGCC** – Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn wynebu'r her o gyflenwi gwasanaethau o ansawdd gwell, gyda llai o adnoddau ariannol (paragraffau 17 i 31).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio'n gorfforaethol yn datblygu'n dda; mae'r cynlluniau ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, er ei bod hi'n ddyddiau cynnar, a bod y manteision heb eu gwireddu eto (paragraffau 32 i 37).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor yn cyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefelau sydd gan amlaf yn uwch na'r safon ofynnol, er bod cyllidebau a niferoedd y staff yn gostwng (paragraffau 38 i 42).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran ymrwymo'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ond nid yw'n gallu barnu ynghylch effeithiolrwydd ei waith wrth fynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles (paragraffau 43 i 46).<br><br>**Comisiynydd y Gymraeg** – Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i adrodd ynghylch arfer da wrth i'r Cyngor weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg (paragraffau 47 i 49). |
| **Defnydd o adnoddau** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol heb unrhyw ddiffygion amlwg (paragraffau 50 i 60). |
| **Llywodraethu** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn rhan o Asesiad Corfforaethol 2014 (paragraffau 61 i 68).<br><br>**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae cynllun gwella'r Cyngor a'r gwerthusiad o'i berfformiad yn cydymffurfio â gofynion Mesur 2009 (paragraffau 69 i 70). |

| | |
|---|---|
| **Archwiliadau o gynlluniau ac adroddiadau gwella** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Cyhoeddwyd tystysgrifau archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Atodiadau 2 a 3). |
| **Archwilio cyfrifon** | **Swyddfa Archwilio Cymru** – Ar 28 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Yr oedd yn cadarnhau ei fod, ar 30 Medi 2014, wedi cyflwyno barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor (Atodiad 4). |

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

b gwneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno unrhyw argymhellion na chynigion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, y mae'n gwneud argymhellion yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol a allai fod yn berthnasol i'r Cyngor. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5. Ceir hefyd nifer o gynigion i'r Cyngor ar gyfer gwella, sy'n deillio o'r gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

12 Yn ogystal â hyn, roedd AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg wedi cynnwys meysydd i'w gwella yn yr adroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyflwynwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael yn www.aggcc.org.uk, www.estyn.gov.uk a www.comisiynyddygymraeg.org.

13 Ni chyflwynodd Estyn unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor yn ystod 2014-15.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae dangosyddion cenedlaethol yn parhau i roi darlun boddhaol o berfformiad

14 Cafwyd gwelliant ym mherfformiad y Cyngor yn 2013-14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gydag 15 o'r 43 o ddangosyddion perfformiad statudol a'r mesurau atebolrwydd cyhoeddus yn chwartel uchaf Cymru. Dim ond pedwar o'r mesurau Cymru gyfan oedd yn y chwartel isaf, ac roedd y Cyngor yn parhau i gyflawni gwelliannau ar draws llawer o'i feysydd gwasanaeth.

15 Adroddwyd gennym yn flaenorol fod y Cyngor yn ystyried bod gwybodaeth am berfformiad yn hollbwysig er mwyn rheoli perfformiad a chyflenwi gwasanaethau'n effeithiol, ac mae'n gywir yn hynny o beth. Y mae wedi datblygu dulliau o osod targedau sydd wedi'u cefnogi'n dda gan wybodaeth reoli. Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o ddogfennau a chanllawiau ategol sy'n helpu i roi sicrwydd bod ei drefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Er bod niferoedd cyffredinol y staff archwilio mewnol wedi gostwng, mae system o reolaethau mewnol ar waith i fonitro cywirdeb data perfformiad a gasglwyd gan wasanaethau unigol, ac i argymell camau unioni lle bo angen.

16 Yn yr Asesiad Corfforaethol a gwblhawyd gennym yn 2014, casglwyd bod y Cyngor yn cynhyrchu gwerthusiadau cytbwys a deallus o'i berfformiad. Mae hyn yn dal i fod yn wir. Mae Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaethau'n parhau i fod yn agwedd bwysig ar drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, ac yn gwneud cyfraniad da at allu'r Cyngor i arfarnu ei gynnydd. Cyn Adolygiad, bydd rheolwyr yn cynhyrchu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael am berfformiad. Rhydd adroddiadau perfformiad corfforaethol drosolwg lefel uchel briodol o gynnydd mewn perfformiad. Mae ansawdd y papurau a gyflwynir i'r pwyllgorau craffu a'r Cabinet yn dda gan amlaf.

## Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn wynebu'r her o gyflenwi gwasanaethau o ansawdd gwell gyda llai o adnoddau ariannol

17 Daeth AGGCC i'r casgliad yn ei adolygiad a'i werthusiad o ddarpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol yn 2013-14 fod perfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn foddhaol ar y cyfan. Mae'r Cyngor yn wynebu'r her o gyflenwi gwasanaethau o ansawdd gwell gyda llai o adnoddau ariannol. Ceir mwy o bwyslais ar hybu annibyniaeth, ynghyd â newidiadau i batrwm gwasanaethau gofal a chymorth, ac ystyrir bod y rheiny'n ffactorau allweddol wrth hyrwyddo amcanion y Cyngor i sicrhau bod ei wasanaethau'n fwy effeithlon a chynaliadwy. Cafwyd cynnydd, ac mae strategaethau ar waith i sicrhau mwy o welliant. Ceir canfyddiadau o arolygiadau awdurdod lleol unigol ac o adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC. http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/safeguarding-and-care-planning-of-looked-after-children-and-care-leavers/?skip=1&lang=cy

18 Mae’r cynnydd a wnaed yn y gwasanaethau i oedolion yn amlwg, er bod hynny i raddau llai nag yn y gwasanaethau i blant. Ceir heriau o hyd wrth i’r gwasanaethau cymdeithasol deithio drwy gyfnod o newid ac ymdrechu i weithio mewn modd mwy integredig â’u partneriaid. Lle bo trefniadau wedi’u sefydlu i weithio’n integredig, ceir eisoes dystiolaeth o ganlyniadau da i bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau. Ceir mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar er mwyn helpu pobl cyn i’w hanghenion gynyddu ac y bydd angen mwy o ofal a chymorth arnynt. Yn 2013-14, cafwyd cynnydd o 81.2 i 84.5 y cant yng nghyfran y cleientiaid dros 65 oed a dderbyniai wasanaethau yn y gymuned, tra arhosodd y niferoedd a oedd yn cael cymorth mewn gofal preswyl oddeutu’r un peth. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen gwell cysylltiadau a mwy o weithio integredig â’r bwrdd iechyd lleol, ac yn datblygu proffil ar y cyd â phartneriaid iechyd o bobl ag anableddau dysgu, gan anelu i greu gwasanaethau ataliol mwy integredig.

19 Ceir rhai diffygion yn systemau’r Cyngor ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaethau oedolion yn y dyfodol. Mae cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer 2012-2015 (‘Conwy’n Un’) yn rhagfynegi y ceir cynnydd o 30 y cant yn nifer y bobl dros 65 oed, a chynnydd o 60 y cant yn nifer y bobl dros 85 oed erbyn 2025. Canfu AGGCC nad yw’r Cyngor eto wedi datblygu strategaeth gomisiynu sy’n ystyriol o’r newidiadau demograffig hyn, er bod y Cyngor yn bwriadu ystyried y data wrth gynllunio. Nid yw system ddata gyfredol y gwasanaethau cymdeithasol yn casglu gwybodaeth mewn ffordd effeithiol am angen sydd heb ei fodloni, ac mae hyn yn ei gwneud hi’n anos cynllunio i’r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, nododd AGGCC nad oedd system ar waith i olrhain cyfraddau llenwi cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio lleol. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd asesu’r capasiti yn y sir. Er mwyn datblygu strategaeth gomisiynu effeithiol, mae’n hanfodol cael systemau gwell ar gyfer casglu proffil llawn a chywir o anghenion yn y sir a chanfod bylchau mewn gwasanaethau.

20 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi buddsoddi’n sylweddol yn ei wasanaeth gofal preswyl i gleifion dementia, Llys Elian, a bod cynigion ar y gweill i newid y cyfleuster yn fodel mwy cartrefol. Cafwyd rhywfaint o gynnydd eisoes mewn perthynas â’r eiddo a’r hyfforddiant i’r staff, a bu arolygiad diwethaf AGGCC o’r gwasanaeth yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, yn 2012 argymhellodd AGGCC fod angen datblygu gwasanaethau yn y gymuned i bobl â dementia ymhellach, ac mae hyn yn parhau i fod yn faes hollbwysig sydd angen ei ddatblygu.

21 Mae Conwy wedi gwneud cynnydd da o ran gwella prydlondeb adolygiadau, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n byw mewn gofal preswyl. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos gwelliant yn y maes hwn, gyda 95.8 y cant o adolygiadau o gynlluniau gofal wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau lle gallai adolygiadau mwy amserol fod wedi atal rhai defnyddwyr gwasanaeth rhag cyrraedd stad o argyfwng. Mewn rhai adolygiadau, a sbardunwyd gan weithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA) neu weithdrefnau Pryderon Cynyddol, casglwyd bod rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal nad ydynt yn bodloni eu hanghenion mwyach. Mewn un cartref gofal, bu'n rhaid symud saith defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn adolygiadau lle canfuwyd anghenion heb eu bodloni a chynnydd yn y risg i'r unigolion dan sylw. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynnal adolygiadau cynharach ac/neu fwy cynhwysfawr o gynlluniau gofal pobl sy'n byw mewn gofal preswyl. Mae'r gyfradd isel o ran oedi wrth ryddhau o'r ysbyty, a'r dangosyddion ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty mewn modd mwy diogel, yn dangos bod y cynnydd yn parhau o ran prydlondeb ac ansawdd yr asesiadau. Mae'r Cyngor yn dal i feddu ar y gyfradd (orau) isaf o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty yng Nghymru, sef 0.7 fesul 1000.

22 Canfu AGGCC fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth. Ceir bellach bedwar cyfleuster gofal ychwanegol sy'n galluogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chymdeithas Tai Clwyd Alyn i ddatblygu gwasanaeth tebyg i bobl ag anabledd dysgu.

23 Dengys yr adroddiad blynyddol ar Amddiffyn Oedolion fod gweithgarwch PoVA wedi cynyddu o 245 i 354 o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ceir hefyd ddolenni cyswllt ar wefan y Cyngor i rai sy'n dymuno rhannu pryder, a thaflenni wrth dderbynfeydd. Dengys data Conwy fod 65 y cant o'r atgyfeiriadau hyn ar gyfer pobl 65 oed a hŷn, a bod 165 (47 y cant) yn gysylltiedig â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae'r Cyngor wedi nodi cynnydd yn y gwaith a wneir ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r heddlu fel cyflawniadau allweddol eleni, ac mae AGGCC wedi bod yn bresennol mewn llawer o gyfarfodydd lle dangoswyd cydweithio effeithiol.

24 Ceir tystiolaeth o gynnydd yn y gwasanaethau plant, yn enwedig o ran amseroldeb adolygiadau gofal a chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Cafwyd gwelliannau i'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau i blant. Mae prydlondeb adolygiadau o gynlluniau plant mewn angen wedi gwella, gan gyrraedd 86.8 y cant, a 97.0 y cant ymhlith plant dan ofal, yn erbyn cyfartaleddau Cymru o 78.8 y cant a 95.9 y cant, yn yr un drefn. Yn ogystal â hyn, cafwyd gwelliant amlwg yng nghyfran yr asesiadau craidd a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith, o 74.2 y cant yn 2012-13 i 89.9 y cant yn 2013-14. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant.

25 At ei gilydd, mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer plant dan ofal wedi gwella. Canfu AGGCC fod lleoliadau'n fwy sefydlog a bod perfformiad ar draws ystod o ddangosyddion cenedlaethol wedi gwella. Mae nifer y plant a ddechreuodd eu lleoliadau gofal cyntaf gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu wedi cynyddu o 84.8 y cant i 91.2 y cant. Mae hyn yn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 90.9 y cant; fodd bynnag, mae rhai awdurdodau'n ymdrechu ac yn llwyddo i gyrraedd 100 y cant yn y maes hwn.

26 Canfu AGGCC fod y trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd plant dan ofal yn parhau i fod yn faes lle mae angen gwella perfformiad. Er enghraifft, yr oedd llai o blant na'r flwyddyn gynt wedi derbyn asesiad iechyd neu wedi'u cofrestru â meddyg teulu. Mae'r rhain yn feysydd y mae angen i'r grŵp rhianta corfforaethol barhau i'w monitro.

27 Yn fwy cadarnhaol, canfu'r arolygiad plant dan ofal fod ystod dda o strategaethau a mentrau ar waith a oedd yn anelu i wella canlyniadau plant a phobl ifanc. Mae tîm Pontio wedi cael ei ddatblygu gan olygu bod modd sicrhau trosglwyddiad di-dor i'r gwasanaethau oedolion. Yn sgil hyn, mae pobl ifanc y derbyn cymorth parhaus gan bobl sy'n eu hadnabod.

28 Canfu AGGCC fod defnydd Conwy o ymgynghorwyr personol i gefnogi pobl ifanc ac eiriol ar eu rhan drwy'r cyfnod pontio wedi derbyn adolygiadau cadarnhaol iawn, a bod cynghorydd personol wedi'i ddyrannu ar gyfer 98.3 y cant o blant dan ofal. Fodd bynnag, er gwaethaf llunio Strategaeth Llety i Bobl Ifanc a Strategaeth i Bobl Ifanc Ddigartref yn ddiweddar, mae'r cynnydd o ran gweithredu'r strategaethau hynny'n parhau i fod yn araf. Nid oes gan yr adran dai drosolwg clir eto o'r nifer sy'n gadael gofal a'u hanghenion posibl.

29 Mae'r Cyngor yn ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy ei raglen drawsnewid, ac mae cynnydd y rhaglen honno'n destun craffu ar sawl haen. Mae'r Cyfarwyddwr wedi sbarduno cyfleoedd amrywiol i gyfathrebu ynghylch cynnydd ag ymarferwyr a cheisio adborth. Mae hyn o gymorth i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o amcanion y Cyngor.

30 Mae'r Cyngor wedi gweithredu strategaeth i ymdrin ag anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, ac mae'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau'[2] yn creu fframwaith cryfach i fanylu ar y camau ymarferol a gymerir i sicrhau statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg.

2 Cyhoeddwyd 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau'n cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i'r bobl sydd angen y gwasanaethau hynny.

31 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r trefniadau ar gyfer Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal, ac sy'n arddangos ymddygiad bregus neu beryglus. Cynhaliwyd yr arolygiad yn rhan o raglen genedlaethol AGGCC o arolygiadau thematig. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd cynllunio gofal ledled Cymru, ac a oedd y gofal hwnnw'n cyflawni'r canlynol yn effeithiol:

a cefnogi ac amddiffyn plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal;

b nodi a rheoli bregusrwydd ac ymddygiad peryglus plant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal;

c hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;

ch hyrwyddo canlyniadau gwell i blant dan ofal a rhai sy'n gadael gofal; a

d hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisi a chanllawiau.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio'n gorfforaethol yn datblygu'n dda; mae'r cynlluniau ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, er ei bod hi'n ddyddiau cynnar, a bod y manteision heb eu gwireddu eto

32 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol (RhMC) i gydgysylltu'r newidiadau y mae'n eu cynllunio i foderneiddio ei ddull o weithio, er mwyn gwella effeithlonrwydd, lleihau costau a rhesymoli asedau, gan gadw gwasanaethau rheng flaen. Prif amcanion y Rhaglen Foderneiddio yw gweithredu 'Doethwaith', sef fersiwn Conwy o weithio ystwyth, ym mhob rhan o'r Cyngor; a gweithredu Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor fydd yn hwyluso datblygu swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn.

33 Mae'r strwythur llywodraethu'r RhMC yn gadarn. Mae bwrdd rhaglen wedi'i sefydlu i oruchwylio cynnydd. Caiff gweithgareddau eu halinio â chwe ffrwd waith, sef Asedau; Adnoddau Dynol (AD); TGCh; Cwsmeriaid; Prosesau Busnes; a Chyfathrebu a Newid. Mae Grŵp Swyddogion Rhaglen wedi cael ei ffurfio er mwyn galluogi'r swyddogion arweiniol ar gyfer pob ffrwd waith i rannu cynnydd a chydgysylltu gweithgarwch, ac mae Grŵp Sicrhau Ansawdd wedi cael ei sefydlu i herio allbwn y rhaglen. Mae Dogfen Diffinio Rhaglen yn pennu amcanion y rhaglen ac yn disgrifio sut maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol. Mae'n egluro rolau a chyfrifoldebau swyddogion ac aelodau sy'n ymwneud â'r Rhaglen, a'r llwybrau ar gyfer gwneud penderfyniadau.

34 Mae cydrannau rheoli prosiect wedi'u sefydlu i reoli'r rhaglen yn effeithiol. Mae'r RhMC yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol, ac yn cynnwys cynlluniau i fodloni unrhyw ddiffygion yn y dyfodol. Bydd cyfarwyddwyr strategol y Cyngor a'r Prif Weithredwr, ynghyd â'r Arweinydd, dau aelod Cabinet a Chadeirydd y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Rhaglen. Mae hyn yn codi proffil y Bwrdd Rhaglen o fewn y Cyngor ac yn helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i flaenoriaethau ehanghach y Cyngor yng ngwaith y Bwrdd. Caiff pob ffrwd waith ei goruchwylio gan swyddog arwain a swyddog cefnogi ffrwd waith, ac mae rheolwr rhaglen llawn amser yn gweithio ar y Rhaglen.

35 Mae'r Cyngor wedi strwythuro'r RhMC er mwyn sicrhau y ceir cydweithio agos rhyngddi a'r ddwy raglen drawsnewid bresennol sydd eisoes ar y gweill - moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol ac ailstrwythuro gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Mae cynrychiolwyr cyffredin ar y tri bwrdd rhaglen, megis y Pennaeth AD, a bydd partneriaid busnes AD sy'n gysylltiedig â phob rhaglen yn cwrdd yn rheolaidd fel grŵp i rannu eu profiadau a sicrhau cysondeb. Mae aelodau staff o'r gwasanaethau cymdeithasol a thîm yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd yn eistedd ar ffrydiau gwaith y RhMC a'r grŵp Swyddogion Rhaglen er mwyn hwyluso'r dysgu.

36 Mae'r staff yn hyddysg ynghylch cynnydd y RhMC. Mae swyddogion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r RhMC yn hyddysg yng ngwaith ffrydiau gwaith eraill drwy'r Grŵp Swyddogion Rhaglen sy'n cyfarfod yn fisol. Yn ogystal â hyn, bydd cynrychiolydd o'r Ffrwd Waith Cyfathrebu a Newid yn eistedd ar bob un o'r ffrydiau gwaith eraill er mwyn sicrhau bod negeseuon a materion allweddol yn cael eu casglu. Mae'r Uwch Dîm Arwain (UDA) yn sicrhau bod y newyddion diweddaraf am gynnydd yn cael eu rhaeadru'n rheolaidd ymhlith y staff mewn amrywiaeth o ffyrdd, ee drwy'r fewnrwyd, yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) ac mewn sesiynau briffio tîm.

37 Dim ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r RhMC, felly nid yw'n gallu arddangos unrhyw fanteision gweladwy, ond mae'r mentrau ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Mae cynlluniau gwireddu manteision wedi cael eu drafftio'n rhan o'r achosion busnes ar gyfer Doethwaith a'r newidiadau i swyddfeydd. Ceir 28 o fanteision penodol yn y cynllun gwireddu manteision ar gyfer Doethwaith. Mae'r rhain wedi'u trefnu o dan bum thema, megis 'gwella darpariaeth gwasanaeth' a'r 'amgylchedd a chynaliadwyedd'. Bwriad y Cyngor yw nodi sut y caiff pob mantais ei mesur, a bydd pob un yn cynnwys mesuriad o'r llinell sylfaen a'r targed. Mae amserlen hefyd wedi'i chynnwys sy'n dangos pryd y gellir disgwyl i'r fantais gael ei gwireddu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes mesuriadau llinell sylfaen nac/neu darged ar gyfer bron deuparth y manteision a nodwyd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bwlch hwn ac wedi sefydlu grŵp gorchwyl i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y mesuriadau a ddewisir yn berthnasol a chadarn.

## Mae'r Cyngor yn cyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar lefelau sydd gan amlaf yn uwch na'r safon ofynnol, er bod cyllidebau a niferoedd y staff yn gostwng.

38 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn ymwneud â'r gwaith o asesu, rheoli ac atal ffactorau yn yr amgylchedd a all gael effaith andwyol ar iechyd pobl. Maent yn trafod ystod o faterion sydd yn destun pryder neilltuol i'r cyhoedd, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, cŵn sy'n baeddu a llygredd sŵn. Yng Nghonwy, mae'r Cyngor wedi pennu tri amcan gwella sy'n gysylltiedig â iechyd yr amgylchedd: Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel; Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel a phriodol; ac Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol.

39 Drwy'r Safonau Arfer Gorau, mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru Gyfan wedi ceisio diffinio ymhellach yr ystod o wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol a dewisol a gyflenwir gan gynghorau yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o feysydd iechyd yr amgylchedd, mae'r Cyngor yn cyflenwi gwasanaethau ar lefel sy'n uwch na'r safon sy'n ofynnol yng Nghymru (mae 26.7 y cant o'r gwasanaethau yng Nghonwy'n cyrraedd safon ofynnol y Safonau Arfer Gorau, neu'n uwch na hynny, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 22 y cant).

40 Yng Nghonwy, cafwyd gostyngiad o 6.9 y cant i gyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14, y seithfed toriad mwyaf i wariant pob cyngor yng Nghymru, a gostyngodd y gyllideb o £1,676,814 yn 2011-12 i £1,561,113 yn 2013-14. Yn ogystal â hyn, cafwyd tanwariant o 5.4 y cant yn erbyn cyllideb y Cyngor ar gyfer iechyd yr amgylchedd yn 2011-12, a thanwariant o 9.8 y cant yn 2012-13. Dengys hyn fod y Cyngor wedi cynllunio am doriadau mawr wrth bennu ei gyllideb flynyddol, ond ei fod hefyd wedi sicrhau arbedion yn ychwanegol at y toriadau hyn.

41 Cafwyd gostyngiad sydyn o 16.4 y cant yn lefelau staff gwasanaethau amgylcheddol cynghorau ar draws pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, gyda nifer y gweithwyr cyngor yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd yn gostwng o 1,046 yn 2011-12 i 874 yn 2013-14. Nid yw nifer y staff a gyflogir yng Nghonwy i gyflenwi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ond wedi gostwng rhyw fymryn, o 37.35 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2011-12 i 35.35 yn 2013-14. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 5.4 y cant.

42 Dangosai arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith staff iechyd yr amgylchedd fod 50 y cant o'r staff a ymatebodd yng Nghonwy yn cytuno bod ansawdd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn y Cyngor yn gwella, cyfran sydd fymryn yn uwch na'r cyfartaledd o 47 y cant yn arolwg Cymru. Teimlai chwedeg chwech y cant o'r ymatebwyr o blith staff y Cyngor fod gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyflawni ei holl ymrwymiadau statudol, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 63 y cant.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran ymrwymo'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ond nid yw'n gallu barnu ynghylch effeithiolrwydd ei waith wrth fynd i'r afael ag effaith diwygiadau lles

43 Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, daeth newid sylweddol i'r dull o weinyddu a dosbarthu budd-daliadau, a bydd hyn yn cael cryn effaith ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU raglen ddiwygio, fydd yn arwain at gyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno newidiadau i fudd-dal tai, gyda'r nod o sicrhau gostyngiad o oddeutu £2.3 biliwn mewn gwariant blynyddol. Bydd y newidiadau hyn yn golygu bod miliynau o aelwydydd ym Mhrydain yn derbyn llai o arian drwy fudd-daliadau, ac yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch sut i ddefnyddio'u harian ac ymdopi o ddydd i ddydd.

44 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar y graddau yr oedd cynghorau yng Nghymru'n rheoli effaith diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygai ei adroddiad y rheolaeth ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD), a'r defnydd ohonynt, gan gynghorau yng Nghymru. Ei gasgliad oedd bod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn gysylltiedig â dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Aethom ar drywydd y gwaith hwn mewn cynghorau unigol.

45 Yn ein hadolygiad, canfuwyd bod gwybodaeth am TTD wedi'i chyfeirio'n glir, a'i bod yn hawdd i gwsmeriaid ymgeisio am TTD. Mae'n ofynnol i gwsmeriaid lenwi ffurflen gais chwe tudalen o hyd, y gellir ei lawrlwytho. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys gwybodaeth ategol i ymgeiswyr ynghylch sut i ymgeisio am TTD. Mae gan y Cyngor system gynhwysfawr i fonitro'r swm sy'n cael ei wario yn erbyn y swm o arian a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro faint o gwsmeriaid sydd wedi derbyn cymorth a faint o arian sydd ar gael yn y gyllideb i gynorthwyo ymgeiswyr. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro pa landlordiaid sy'n derbyn cymorth, a'r nifer ohonynt; hyd yr amser a gymerir i benderfynu ynghylch ceisiadau; a'r math o ymgeisydd sy'n derbyn cymorth, megis cwsmeriaid yr effeithir arnynt gan y Cymhorthdal Ystafell Sbâr. Caiff yr wybodaeth hon ei bwydo'n ôl i'r tîm Cynghori ynghylch Tai er mwyn cynorthwyo gyda'i waith beunyddiol, ond nid yw'n glir a yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i gefnogi datblygiad polisi ar TTD ac i farnu ynghylch pa mor effeithiol yw gwaith y Cyngor wrth ymdrin ag effaith diwygiadau lles.

46 Roedd y Cyngor wedi talu £189,848 o'i ddyraniad blynyddol o £217,097 o TTD ddiwedd mis Tachwedd 2014, sef 87 y cant o'i ddyraniad. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn ymdrechu mewn modd cadarnhaol i ddefnyddio TTD i gefnogi'r rhai sydd angen y taliadau hynny, ond mae angen iddo gysylltu TTD â'r polisi strategol ehangach ar les, er mwyn dangos effaith ei waith yn well. Ym mis Ebrill 2015, cytunodd y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i fabwysiadu dull unffurf o ddosbarthu TTD yn y dyfodol, a hynny'n rhannol er mwyn ymdrin â'r anghysondebau a'r gwendidau sylweddol a nodwyd yn ein hadolygiad.

## Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i adrodd ynghylch arfer da wrth i'r Cyngor weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg

47 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i rym i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i adolygu cynlluniau Iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

48 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl gynghorau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb cynghorau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae'n ofynnol i bob cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

49 Yng Nghonwy, mae'r Cyngor yn parhau â'r arfer da a nodwyd y llynedd wrth ddatblygu ei ddarpariaeth. Mae'r Cyngor bellach yn gwe-ddarlledu ei gyfarfodydd, gan alluogi'r gwyliwr i ddewis sianel Gymraeg neu sianel Saesneg. Roedd wyth deg un y cant o'r staff a benodwyd i swyddi yn ystod 2013-14 yn gallu siarad Cymraeg, sef canran uwch na'r llynedd. Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd y Cyngor ond yn gallu rhoi adroddiad rhannol ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu cyfan. Er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau hyn, datblygwyd dyfais i'w gosod ar gyfrifiaduron y staff sy'n casglu gwybodaeth am sgiliau iaith. Caiff yr wybodaeth ei storio ar daenlen i ddibenion ystadegol. Mae'r wybodaeth hefyd wedi'i chynnwys ym manylion y staff ar y fewnrwyd fel bo modd i unigolion gyfathrebu'n rhwyddach â'i gilydd yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru'r data'n rheolaidd o hyn allan.

# Defnydd o adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol digonol heb unrhyw ddiffygion amlwg

50 Yn ystod y cyfnod o fis Mai i fis Awst 2014, archwiliodd Swyddfa Archwilio Cymru sefyllfa ariannol yr awdurdodau a'r modd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Ystyriai'r gwaith hwn a oedd gan awdurdodau ddulliau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau y maent yn eu wynebu i'r gyllideb, er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy. Ffocws y gwaith oedd cyfnod cynllunio ariannol 2014-15. Er mwyn goleuo safbwyntiau ynghylch cynllunio ar gyfer cyllidebau a'u cyflawni'n llwyddiannus, buom hefyd yn ystyried hanes y Cyngor ym mlynyddoedd ariannol blaenorol 2011-12 i 2013-14.

51 Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn y camau cynlluniedig a gymeradwywyd ganddo. Llwyddodd y Cyngor i nodi a chynllunio ar gyfer ystod o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd eu hangen er mwyn bodloni diffyg yn y gyllideb rhwng 2011-12 a 2013-14, a chyflawni'r arbedion hynny. Nid oedd angen creu unrhyw arbedion a oedd heb eu nodi ar adeg cymeradwyo cyllidebau 2011-12, 2012-13 na 2013-14, ac fe gyflawnwyd y gostyngiadau a'r arbedion a gynlluniwyd gan y Cyngor yn ystod pob un o'r tair blynedd. Mae'r trefniadau ar gyfer pennu'r gyllideb yn cefnogi gweledigaethau, nodau ac amcanion gwella corfforaethol, ac mae blaenoriaethau'r Cyngor yn dylanwadu ar y gyllideb a'r cynlluniau arbed blynyddol. Nododd y Cyngor ddiffyg manwl gywir o £7.193 miliwn yng nghyllideb 2013-14 ac £14.7 miliwn yng nghyllideb 2014-15.

52 At ei gilydd, mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol digonol ar gyfer cynllunio ariannol a gweledigaeth a nodau clir, ac mae'r nodau cyffredinol wedi'u hadlewyrchu mewn cyfres gydlynol o amcanion gwella. Mae'r holl amcanion gwella'n gysylltiedig â chynlluniau gwasanaeth a chynlluniau ariannol.

53 Mae data cadarn yn cefnogi'r tybiaethau chwyddiant a ddefnyddiwyd wrth bennu'r gyllideb, ac mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn rhesymol ac yn ddoeth. Ceir disgrifiad clir o'r meysydd lle bydd arbedion yn cael eu cyflawni, a chytunir yn fanwl ar symiau yn erbyn pob eitem yn rhan o'r gyllideb flynyddol. Mae Cynllun Arbedion 2014-15 yn arddangos nodweddion CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, perthnasol, uchelgeisiol, synhwyrol). Mae cynlluniau arbedion effeithlonni wedi'u datblygu ar gyfer 2014-15 ar draws holl adrannau'r Cyngor. Wrth gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17, defnyddir cyfres gyfredol o dybiaethau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu hadnewyddu wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg.


54 Mae'r Cyngor wedi gwella'i broses o gynllunio'n ariannol ar gyfer y Tymor Canolig, ond bydd angen iddo barhau i ddatblygu'r broses honno wrth i'r heriau ariannol hwythau barhau. Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ar y defnydd o gronfeydd, ond caiff priodolrwydd cronfeydd ei ystyried yn rheolaidd gan swyddogion ac Aelodau. Mae adolygiad y Cyngor o'i gronfeydd a'i falansau'n broses barhaus, ac yn cynnwys cyfeiriadau blynyddol yn adroddiadau'r gyllideb.

55 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, nodwyd bod y Cyngor yn defnyddio cronfeydd i fantoli cyllideb 2014-15 er mwyn 'prynu amser' i gynllunio ymhellach. Cydnabu'r Cyngor nad oedd hyn yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Dim ond 1.1 y cant o'r gwariant gros oedd yng nghronfa gyffredinol y Cyngor ar ddiwedd 2012-13, sef y gyfran isaf o'r holl gynghorau yng Nghymru. Roedd cronfeydd a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2013 yn cynrychioli 8.5 y cant o wariant gros, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 11.3 y cant. Yn 2015, bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal adolygiad pellach o gydnerthedd ariannol y cynghorau, gan ganolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2015-16, a chan gynnwys gwaith pellach ar y defnydd o gronfeydd.

56 Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn gadarn ac yn cael eu rheoli'n effeithiol gan dîm Cyllid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol ac sy'n brofiadol iawn. Mae gan y Cyngor reolaethau ariannol cryf ac mae'n rheoli materion ariannol a materion sy'n ymwneud â'r gyllideb yn dda. Mae polisi'r Cyngor ar gyfer rheoli'r gyllideb yn briodol ac yn effeithiol ac wedi'i gefnogi gan gyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i'r Aelodau, i swyddogion ac i ddeiliaid cyllidebau.

57 Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16, nododd y Cyngor ddiffyg o £16.08 miliwn, ac amcangyfrifwyd bod angen £27.8 miliwn o arbedion pellach dros y ddwy flynedd ganlynol. Ar gyfer 2015-16, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys arbedion o oddeutu £10.2 miliwn i gyllidebau gwasanaethau, a chynnydd o bump y cant i'r Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys £3.47 miliwn o gyllid anghylchol fel ffactor cydbwyso, ac yn sgil hynny mae defnydd y flwyddyn gynt o gronfeydd yn dechrau gostwng yn raddol. Mae Arddangosyn 1 isod yn cymharu cynlluniau'r Cyngor o ran gwariant refeniw gros (yn glir o incwm) fesul pen o'r boblogaeth dros y pedair blynedd diwethaf â'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau ar draws Cymru.

Arddangosyn 1 – Gwariant refeniw gros (yn glir o incwm) fesul pen o'r boblogaeth




*Ffynhonnell: Stats Cymru*

58 Mae'r graff yn dangos y bu'r gwariant fesul pen yng Nghonwy fymryn yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r tair blynedd cyn 2014-15. Mae hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau megis amddifadedd, gostyngiad yn nifer y disgyblion o gymharu â gweddill Cymru, lefel isel iawn o dwf yn y boblogaeth, a natur wledig y sir sy'n dylanwadu ar fformiwla ddosbarthu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw. Ers 2011-12, cyfrifir y cafwyd gostyngiad o dri y cant mewn gwariant fesul pen mewn termau real yng Nghonwy, sef lefel debyg i'r gostyngiad i'r cyfartaledd ar draws cynghorau yng Nghymru.

59 Yn Atodiad 6, rydym wedi cynnwys gwybodaeth am ddosbarthiad adnoddau ariannol y Cyngor yn 2013-14, ac am dueddiadau yng ngwariant refeniw gros y Cyngor a'i incwm ers 2008-09. Cymerwyd y data o Ddatganiadau Cyfrifon y Cyngor.

60 Fel ym mhob cyngor, costau addysg a gofal cymdeithasol yw cyfran fawr o wariant y Cyngor. Deuai ychydig llai na hanner ei incwm gros ar gyfer 2013-14 o'r Grant Cynnal Refeniw a grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru nad ydynt wedi'u neilltuo (37.8 y cant) a Threthi Annomestig (10.9 y cant). Mae'r rhain yn ffynonellau incwm nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt, ac mae'r Grant Cynnal Refeniw yn gostwng. Incwm o'r Dreth Gyngor oedd 17.6 y cant o incwm y Cyngor ar gyfer 2013-14, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 15.2 y cant. 'Incwm Arall' (gan gynnwys ffioedd a thaliadau) oedd 33.7 y cant o incwm y Cyngor, cyfran ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

# Llywodraethu

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn rhan o Asesiad Corfforaethol 2014

61 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2013 yn rhan o'i rhaglen ar gyfer Cymru gyfan. Yn yr adroddiad dilynol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, nodir nifer o gynigion ar gyfer gwella. Roedd yr adroddiad yn cynnig y dylai'r Cyngor:

- a weithio gyda'i ysgolion a chyda'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, i gynyddu gwerth am arian o fewn y system ysgolion cynradd;
- b gwella rhai agweddau ar drefniadau gwaith ei bwyllgorau;
- c datblygu cynlluniau ariannol tymor hir sy'n cydgysylltu adnoddau ac yn cynnwys amserlenni realistig ar gyfer gweithredu unrhyw raglenni trawsnewid; a
- ch gweithio'n agosach gyda'i bartneriaid i gynyddu gallu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i fonitro a rheoli ei berfformiad.

62 Mewn gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor, canfuwyd bod ganddo gynllun gweithredu ar waith i ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio (GGA) yn goruchwylio camau sy'n deillio o adroddiadau rheoleiddio allanol, megis yr Asesiad Corfforaethol, ac adroddir ar gynnydd bob chwarter wrth y Pwyllgor Archwilio. Gall y Cyngor ddangos bod camau naill ai ar y trywydd iawn neu wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r chwe chynnig ar gyfer gwella, fel y nodir isod.

63 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth weithio gyda'i ysgolion, ac wrth weithio gyda'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, GwE, er mwyn cynyddu gwerth am arian o fewn y system ysgolion cynradd. Mae gan y Cyngor Raglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd ar waith. Canlyniad y Rhaglen hon fu cau dwy ysgol fechan yn 2014, gan gynnwys Ysgol Llangwm, a chanddi'r costau uchaf fesul uned yn y Fwrdeistref Sirol. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, cafwyd rhywfaint o ostyngiad yn 2014-15 i gyfanswm y gost yn y gyllideb fesul disgybl yn y system addysg gynradd yng Nghonwy. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ynghylch cau pedair ysgol arall. Mae'r Cyngor yn adrodd wrth y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid ar ei gynnydd yn erbyn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

64 Yn 2012-13, derbyniodd wyth o ysgolion cynradd yn y Fwrdeistref Sirol adroddiadau arolygu beirniadol gan Estyn, lle'r oedd angen cynnal ymweliadau dilynol. Ar ôl yr ail-ymweliadau hynny gan Estyn yn 2013-14, mae pob un o'r wyth o ysgolion bellach allan o'r categori critigol hwn. Cafwyd gwelliant i rai agweddau ar gyrhaeddiad yn ysgolion cynradd Conwy yn 2014. Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn dangos pedwar pwynt canran o welliant ers 2013, gan olygu bod y Sir yn safle 13 o gymharu â'r 22 sir yng Nghymru. Cafwyd mymryn o welliant i'r gyfran o blant 11 oed a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn 2014, ond disgynnodd safle'r Cyngor yng Nghyfnod Allweddol 2 o'r 15fed i'r 17eg.

65 Wrth adolygu dull ei bwyllgorau o weithio, mae'r Cyngor wedi diwygio ei dempled ar gyfer adroddiadau'r Cabinet, er mwyn cynnwys paragraff gorfodol newydd (adran 11) sy'n nodi unrhyw sylwadau perthnasol gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Lle na fydd amser i ddiweddaru adroddiadau i'r Cabinet i gynnwys sylwadau neu argymhellion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (ee, pan fydd y cyfarfodydd yn agos at ei gilydd), mae'r swyddogion pwyllgorau wedi cael cyfarwyddyd i gofnodi argymhellion craffu yng nghofnodion y Cabinet. Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng aelodau pwyllgor a chynghorwyr neu swyddogion eraill mewn cyfarfodydd craffu, mae'r trefniadau eistedd wedi cael eu newid. Mae safle wedi'i ddyrannu i'r aelodau pwyllgor ac mae swyddogion pwyllgor yn sicrhau y cedwir at y drefn honno. Cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Awst 2014 er mwyn ystyried sut y dylid dwyn deiliaid portffolio i gyfrif. Argymhellodd aelodau'r pwyllgor y dylai Aelodau Cabinet fod yn bresennol mewn cyfarfodydd craffu, ond y byddai'n well ganddynt i swyddogion gyflwyno'r papurau fel nad yw deiliaid portffolio'n dylanwadu'n ormodol ar aelodau'r pwyllgor. Argymhellodd y pwyllgor hefyd y dylid sefydlu Fforwm Gwybodaeth a Datblygu'r Aelodau i ddisodli'r sesiynau 'Cwrdd â'r Cabinet' presennol. Bydd aelodau Cabinet yn cymryd tro i fod yn bresennol yn y Fforwm i gynghori ynghylch materion strategol fydd yn codi yn y dyfodol neu faterion sy'n berthnasol i'w portffolio. Bydd y Fforwm yn rhoi cyfle i aelodau pwyllgor gael gofyn cwestiynau i aelodau Cabinet.

66 Mae'r Cyngor wedi eglurhau'r prosesau sydd ar waith i roi sicrwydd iddo'i hun y gweithredir yn sgil argymhellion archwilio mewnol a rheoleiddwyr allanol. Mae siartiau llif o'r weithdrefn fewnol wedi cael eu llunio i wneud y prosesau'n fwy eglur. Caiff holl argymhellion rheoleiddwyr allanol eu monitro gan GGA y Cyngor. Bob chwarter, bydd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu rhestr o'r argymhellion risg uchel, lle ceir prinder sicrwydd, sy'n weddill o Adroddiadau Archwilio Mewnol, ochr yn ochr â'r argymhellion sy'n weddill gan reoleiddwyr allanol. Caiff argymhellion ac iddynt lai o risg eu hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth a'u hadolygu bob chwe mis drwy gynnal Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth. Bydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu mwyaf perthnasol, Arweinydd y Cabinet ar gyfer perfformiad, a lle bo'n briodol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac unrhyw aelodau perthnasol eraill, yn bresennol yn y cyfarfodydd adolygu hyn.

67 Yn rhan o waith y Cyngor i foderneiddio'n barhaus, mae tair prif raglen ar waith ar gyfer trawsnewid. Mae pob un o'r tair rhaglen drawsnewid wedi'u datblygu i wahanol raddau. Cynhelir pob un yn seiliedig ar egwyddorion rheoli prosiect, ac mae trefniadau llywodraethu ar waith ynghyd â chefnogaeth benodol ar gyfer prosiectau. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cafwyd mwy o fanylion ynghylch cynnydd y rhaglenni hyn.

68 Er mwyn iddi weithredu'n fwy effeithiol, penderfynodd Partneriaeth Strategol Leol Conwy a Sir Ddinbych y byddai'n rhoi'r prif sylw i un flaenoriaeth ar gyfer 2014-15 -Iach ac Annibynnol- a'r themâu canlynol oddi mewn i hynny: gordewdra ymhlith plant, camddefnyddio alcohol a phoblogaeth sy'n heneiddio.

## Mae Cynllun Gwella'r Cyngor a'i werthusiad o'i berfformiad yn cydymffurfio â gofynion Mesur 2009

69 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn ei Dystysgrif ar gyfer y Cynllun Gwella ym mis Mai 2014 (Atodiad 2), casglodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur.

70 Mae'r Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau i gynllunio ac adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn ei Dystysgrif ar gyfer y Cynllun Gwella ym mis Tachwedd 2014 (Atodiad 3), casglodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i adrodd am welliannau o dan y Mesur.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad o Berfformiad 2013-14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun. ac
- wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio'n ddigonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru
Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Iwan Davies
Y Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Annwyl Iwan

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith archwilio cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion a ddeilliai o'm harchwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 29 Medi 2014.

- Cyflwynais adroddiad ar gamddatganiad heb ei gywiro yn gysylltiedig â phrisiad y ddarpariaeth diwedd blwyddyn ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar Bier Fictoria. Yn natganiadau ariannol 2013-14, roedd gwerth y ddarpariaeth hon, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2014, wedi gostwng o £600,000 ar ddechrau'r flwyddyn i £489,000, gan fod y ddarpariaeth wedi cael ei defnyddio i ariannu costau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r achos llys parhaus ynghylch perchnogaeth. Ni chynhaliodd y Cyngor ailasesiad o werth y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2014, er bod hynny'n ofyniad o dan y Cod ac o dan IAS 37 Darpariaethau, Atebolrwydd Cronfeydd Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn. Mae'r Rheolwyr, fodd bynnag, wedi amcangyfrif mai gwerth presennol yr ymrwymiad cynnal a chadw yw oddeutu £650,000 ar 31 Mawrth 2014. Rwy'n fodlon fod y sefyllfa ddiwygiedig hon yn cyd-fynd ag ystod ein hamcangyfrif, fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio yn 2011-12 a 2012-13. Gan hyn, yr oedd angen addasiad o £161,000 i falans y ddarpariaeth. Dewisodd y rheolwyr beidio â chywiro'r camddatganiad archwilio hwn. Nid oedd y camddatganiad, nad oedd wedi'i gywiro, yn gamddatganiad o bwys.

- Tynnwyd sylw'r rheolwyr hefyd at dri chamddatganiad arall, a gywirwyd gan y rheolwyr. Roedd a wnelo'r rhain â:

  - Buddsoddiadau a benthyciadau a wnaeth y Cyngor ar ran Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru;

  - £500,000 a gafodd ei symud o gronfa wrth gefn i'r gronfa ddarparu yn gysylltiedig ag atebolrwydd tebygol mewn anghydfod ynghylch contract adeiladu. ac

  - Ailddosbarthu incwm grant gwerth cyfanswm o £791,000 yn 'Costau gwasanaeth (incwm - Gwasanaethau Canolog)' yn hytrach nag 'Incwm Trethu Lleol a Grantiau Amhenodol'.

- Yn ein gwaith archwilio, nodwyd hefyd nifer fach o fân wallau cyflwyniadol sydd wedi cael eu cywiro yn fersiwn derfynol y datganiadau ariannol. Ni chafodd y newidiadau hyn unrhyw effaith ar y sefyllfa ariannol gyffredinol a adroddwyd.

- Yn ein gwaith archwilio, nodwyd un gwendid newydd yn rheolaethau mewnol y Cyngor, yn gysylltiedig â'r adolygiad o'r rheolaeth ar ddyddiaduron anawtomatig y dylid ei gynnal yn gyfnodol drwy gydol y flwyddyn. Yn ein profion, nodwyd nad oedd y rheolaeth hon yn weithredol hyd fis Mawrth 2014, pan gwblhawyd adolygiad ôl-weithredol o'r holl ddyddiaduron. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau yn sgil yr ymarfer hwn. Roedd manylion argymhelliad a wnaed yn gysylltiedig â'r gwendid rheolaethol dan sylw wedi'u cynnwys yn adroddiad ISA 260 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2014.

## Yr wyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Cyflwynais fy marn ar yr archwiliad o'r cyfrifon ar 30 Medi 2014.** Nid wyf eto mewn sefyllfa i ardystio bod gwaith archwilio 2013/14 wedi cau. Mae hyn oherwydd bod archwiliadau 2010/11, 2011/12 a 2012/13 yn parhau i fod ar agor yn sgil sawl gwrthwynebiad a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd, nad ydynt wedi'u datrys. Cafwyd gwrthwynebiadau hefyd ynghylch 2013/14, ac rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso'r cwestiynau a godwyd er mwyn asesu a ydynt o fewn ein cylch gwaith ar gyfer cynnal ymchwiliad, a sut i'w datrys. Wrth ddatrys gwrthwynebiadau yn ystod y flwyddyn, adroddais am hynny wrth Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

**Mae fy ngwaith hyd yma i ardystio hawliadau a ffurflenni grant yn gysylltiedig â 2013-14 yn parhau**. Byddaf yn paratoi adroddiad manwl ar fy ngwaith ardystio grantiau fydd yn dilyn yn fuan yn 2015, cyn gynted ag y bo rhaglen eleni o waith ardystio wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r swm cytunedig a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Bydd ffioedd ychwanegol yn deillio o'r angen i ymdrin â nifer fawr o wrthwynebiadau gan aelod o'r cyhoedd.

Yn gywir

Ian Pennington, Cyfarwyddwr, KPMG UK LLP
**Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i’r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy’n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â’r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu’r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy’n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy


Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





Cyfanswm Incwm a Gwariant




Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru